Cyhoeddiadau Eglwysi Bro Enlli
Dydd Sul 22 Mawrth 2026

ARDAL WEINIDOGAETH BRO ENLLI MINISTRY AREA

† Pwllheli † Llannor † Llanbedrog † Llangian † Llanegan † Llanfaelrhys † Aberdaron

Annwyl Frodyr a Chwiorydd yn Nghrist

Gobeithiaf eich bod i gyd yn cadw'n dda ac yn iach. Dymuniadau gorau am wellhad buan i bawb sy'n wael, a boed i Grist gysuro bob un sy'n unig neu'n galaru. Os oes unrhyw beth y gallaf ei wneud i helpu, neu os hoffech i mi weddïo drosoch neu'ch anwyliaid, yn fy ngweddïau personol neu yn ein gwasanaethau, peidiawch ag oedi cysylltu â mi.

Rwy'n falch iawn o rannu y byddwn yn croesawu pregethwr gwadd i'n tywys drwy'r Wythnos Fawr a'r Pasg eleni. Mae Donald Parr, Darllenydd yn esgobaeth Cofentri ac wedi'i drwyddedu i Eglwys Gadeiriol Cofentri ers 2017, yn ymwelydd rheolaidd â Bro Enlli.
Mae ef a'i wraig Sue yn ymuno â ni ddwy neu dair gwaith y flwyddyn ac maent yn rhan fawr o'n cymuned addoli yn Eglwys Sant Hywyn, Aberdaron. Mae gan Donald gyfoeth o brofiad ar ôl gwasanaethu mewn dau blwyf gwledig cyn y gadeirlan, lle mae'n pregethu'n rheolaidd. Siaradodd Warden y Darllenwyr yng Nghofentri, sy'n ei adnabod yn dda, yn uchel iawn amdano. Bydd Donald yn pregethu i ni ar Sul y Blodau (Llanbedrog), Dydd Iau Cablyd (Pwllheli), Dydd Gwener y Groglith (Llanbedrog), a Dydd y Pasg (Aberdaron). Edrychwn ymlaen gyda llawenydd mawr at groesawu Donald a Sue unwaith eto. Mae eu presenoldeb yn ein plith bob amser yn fendith, ac rydym yn ddiolchgar am weinidogaeth Donald a'i barodrwydd i agor y Gair i ni ar yr adeg fwyaf cysegredig hon ym mlwyddyn yr Eglwys.

Mae deugain niwrnod y grawys yn prysur fynd heibio ac mi fyddwn yng nghanol holl ddigwyddiadau cythryblus yr Wythnos Fawr cyn i ni droi. Mawr obeithiaf eich bod yn cael grawys bendithiol gan wneud y mwyaf o'r cyfnod yma i fyfyrio a gweddïo ar anghenion enbyd y byd o'n cwmpas, yn ogystal â'n hanghenion ysbrydol ein hunain. Rydym hefyd, wrth gwrs, yn disgwyl yn eiddgar am y gobaith sicr hwnnw a ddaw gyda'r bedd gwag a buddugoliaeth ein Harglwydd Iesu Grist ar ddydd y Pasg.

Gyda chymaint o ddioddef a rhyfela yn ein byd, cymaint o dlodi ar ein stepan drws, cymaint mewn angen am fwyd a'r pethau sylfaenol, heb sôn am yr angen am ddŵr glân ar filynnau o bobl y byd, mae'n rhaid i ni beidio ag anobeithio. Cofiwn fod Crist wedi cerdded y ffordd o'n blaenau ni, wedi bod yn ddigartref, yn sychedig, yn noeth, wedi ei guro a'i sarhau, a hyd yn oed wedi cwympo nid unwaith, ond teirgwaith dan bwysau aruthrol y groes. Eto, fe gododd gan gario'n pwysau ni i gyd i'r eithaf, cymaint oedd ei dosturi a'i gariad tuag atom, nes iddo farw er ein mwyn gan orchfygu angau ei hun a chodi unwaith eto mewn gogoniant ar y trydydd dydd.

Beth bynnag yw eich disgyblaeth neu'ch sylw wedi bod y grawys hwn, boed inni geisio efylychu cariad Crist gan fod yn wyneb tosturi i bawb o'n cwmpas. Nid peth hawdd yw hyn bob tro, ond cofiwn fod Iesu yno i roi nerth a hwb bach ymlaen i ni. Y cwbl y mae'n gofyn yn ôl gennym ni yw i fod yn ddisgyblion iddo ef. Mae ei ddisgyblion yn cael eu hadnabod gan gariad at Dduw a chymydog.

Mawr obeithiaf y gallwn i gyd ddod at ein gilydd ar gyfer ein gwasanaeth Sul y Blodau, yr Wythnos Fawr, a'r Pasg wrth inni gyrraedd uchafbwynt y flwyddyn eglwysig gan dystio i'r byd o gariad, tosturi a gallu Duw.

Gyda'm gweddïau drosoch bob un, a chariad,
Rhun.

Yr Wythnos i ddod

11.00am	Dydd Llun	Capel Y Drindod	Myfyrdod y Grawys CYTUN
12.00pm	Dydd Llun	Eglwys St Pedr	Cinio Grawys
10.30am	Dydd Mawrth	Eglwys St Pedr	Y Cymun Bendigaid
10.00am	Dydd Mercher	Eglwys St Pedrog	Y Cymun Bendigaid (te a choffi ar ôl y gwasanaeth)
10.30am	Dydd Iau	Eglwys St Hywyn	Y Cymun Bendigaid (te a choffi ar ôl y gwasanaeth)

Dydd Sul 29 Mawrth—Sul y Blodau—Eglwysi Bro Enlli Ynghyd

10.30am—Llanbedrog—Y Cymun Bendigaid

Ar Sul y Blodau, gwahoddir pawb i ymgynnull yn Neuadd Eglwys Llanbedrog am 10:30am ar gyfer bendithio plac coffa arbennig, sy'n anrhydeddu pob cyfraniad a wnaed tuag at ffenestri newydd Neuadd yr Eglwys. Yna bydd ein gwasanaeth Sul y Blodau yn parhau gyda bendithio'r croesau palmwydd, ac yna gorymdaith i'r eglwys. Noder mai dyma'r unig wasanaeth a fydd yn digwydd ym Mro Enlli ar y diwrnod hwnnw.

Yr Wythnos Fawr

Dydd Llun	11.00am	Eglwys Gatholig St Joseff, Pwllheli	Gorsafoedd y Groes
Dydd Mawrth	10.30am	Eglwys St Pedr, Pwllheli	Y Cymun Bendigaid
Dydd Mercher	11.00am	Cadeirlan Deiniol Sant, Bangor	Cymun y Crism
Y Tridiau Sanctaidd			
Dydd Iau Cablyd	6.00pm	Eglwys St Pedr, Pwllheli	Cymun Y Swper Olaf
Gwener y Groglith	2.00pm	Eglwys St Pedrog, Llanbedrog	Litwrgi Gwener y Groglith
Sadwrn Sanctaidd	6.00pm	Eglwys Y Groes Sanctaidd, Llannor	Gwasanaeth y Goleuni a Cymun Cyntaf y Pasg

Sul y Pasg

9.00am	Eglwys St Cian, Llangian	Y Cymun Bendigaid
10.30am	Eglwys St Pedrog, Llanbedrog	Y Cymun Bendigaid
11.00am	Eglwys St Hywyn, Aberdaron	Y Cymun Bendigaid
2.00pm	Eglwys St Maelrhys, Llanfaelrhys	Y Cymun Bendigaid

Ciniawau'r Grawys

Diolch i bawb am eich cefnogaeth i Giniawau'r Grawys eto eleni. Mae wedi bod yn hyfryd dod at ein gilydd ar gyfer myfyrdodau'r grawys ac i rannu bwyd a chwmnïaeth gyda'n gilydd gan godi arian i Cymorth Cristnogol. Mi fydd y cinio olaf ddydd Llun, 23 Mawrth, gydag Eglwysi Llanengan a Llangian yn paratoi. Diolch o galon.

Cymun Cartref

Os gwyddoch am unrhyw un a fyddai'n dymuno derbyn y Cymun yn eu cartref oherwydd anhawster dod i'r eglwys, yn enwedig dros y Pasg, rhowch wybod i'r Tad Rhun.

Ffair y Pasg Llangian & Llanenagn

2.00pm—Dydd Llun 6 Ebrill—Neuadd Eglwys Llangian

Cyfarfod Arbennig o Synod Meirionnydd (Gweler llythyr)

2.00pm—Dydd Sadwrn 18 Ebrill—Eglwys y Santes Fair, Dolgellau

Gwasanaeth Unedbol Cymorth Cristnogol

10.30am—Dydd Sul 17 Mai—Eglwys St Pedr, Pwllheli, gyda'r Tra Phargedig Manon Ceridwen James, Deon Bangor, yn pregethu.

Cyfarfod Cyngor Ardal Weinidogaeth (CAW) Bro Enlli

3.00pm—Dydd Sul 17 Mai 2026—Neuadd Eglwys Llanbedrog

Cyfarfod Festri Blynyddol Bro Enlli (Dewch â chinio i rannu)

12.30pm—dydd Sul 28 Mehefin 2026—Eglwys St Pedr, Pwllheli